**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol

10 Gorffennaf 2019

Annwyl Gwnsler Cyffredinol,

**Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

Fel y gwyddoch, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 13 Mehefin 2019, i roi rhagor o wybodaeth am y cynigion mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol. Ymatebais i'r Llywydd ar 27 Mehefin 2019, ac anfonwyd copi atoch chi a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Yn fy ateb, gofynnais i'r Llywydd, wrth drafod â chi, ystyried peidio â gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad o ran Penderfyniad Ariannol nes bod rhagor o wybodaeth ar gael mewn perthynas â threfniadau ariannu a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol.

Deallaf o'ch llythyr at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 25 Mehefin 2019, eich bod yn bwriadu ceisio diwygio'r Bil i wneud y trefniadau ariannu ac atebolrwydd yn gliriach rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol. Rwy'n gwerthfawrogi bod hwn yn faes cyfreithiol cymhleth a'ch bod yn parhau i drafod opsiynau gwahanol â Thrysorlys y DU, Comisiwn y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod angen i'r Cynulliad gytuno i'r gwariant gael ei godi ar Gronfa Gyfunol Cymru neu fod yn daladwy o'r Gronfa honno. Gan nad yw'r darpariaethau ynghylch trefniadau ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol yn hysbys o hyd, nid wyf yn credu ei bod yn briodol gofyn i'r Cynulliad awdurdodi'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon, hyd nes y ceir eglurder ynghylch beth yn union y mae'r Cynulliad yn ei awdurdodi, a sut y caiff y gwariant hwn ei ariannu.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Gan mai dim ond aelod o'r Llywodraeth sy'n gallu 'gwneud' cynnig Penderfyniad Ariannol, ysgrifennaf i ofyn i chi oedi nes bod gennym ragor o wybodaeth gennych chi a'r Llywydd mewn perthynas â threfniadau'r Comisiwn Etholiadol cyn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo cynnig o'r fath. Bydd hyn yn sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid yn cael cyfle i ystyried eich cynigion a'u goblygiadau ariannol cyn trafodion Cyfnod 2.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at y Llywydd a’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid